



Annwyl rieni / Gofalwyr,

Gobeithio eich bod yn cadw'n iach ac yn ddiogel, ac wedi gallu mwynhau'r Pasg. Hoffwn egluro ychydig o ran ein trefniadau ysgol i gadw mewn cysylltiad â chi a'ch plentyn ac i rannu syniadau/gwaith ar gyfer yr wythnosau nesaf. Yn gyntaf, fe hoffwn eich hysbysu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, y bydd yr ysgol yn aros ar gau hyd nes y derbynir canllawiau pellach oddi wrth Weinidog Addysg Llywodraeth Cymru. Hoffwn bwysleisio mai'r hyn sy'n allweddol ar hyn o bryd yw ein bod i gyd yn ddiogel ac yn iach, yn hytrach na faint o daflenni gwaith a thasgau fydd plentyn yn ei gwblhau. Yr ydym yn sylweddoli pa mor anodd yw hi arnoch chi fel rhieni, ac nid ydym eisiau rhoi pwysau di angen arnoch. Pan ddaw yr amser i ni edrych yn ôl ar y cyfnod yma, cyfnod byr fydd o yn nhrefigl ein bywydau ni. Cyfnod y bydd ein plant yn cofio'n wahanol efallai...misoedd braf 2020 ble roedd cyfle iddynt dreulio amser gwerthfawr gyda'r teulu...yn gyfnod ble roeddent wedi dysgu nifer o sgiliau wrth adeiladu, chwarae gêmiau, darllen, coginio, peintio, heb fod yn agos at y dosbarth.

Byddwn ni fel ysgol yn parhau i ddarparu cyfleoedd ar gyfer 'Dysgu o Bell'. Annog y disgyblion i fentro ar y tasgau fyddwn ni fel staff yn eu hawgrymu i'r plant, ac wrth gwrs, nid yn eu gorfodi i gwblhau rhestr o weithgareddau pob dydd. Rydym wedi cymeryd hyn mewn i ystyriaeth wrth gynllunio a gosod y tasgau ar gyfer oedrannau penodol. Hefyd, **nid oes disgwyl i ddilyn unrhyw amserlen pendant ar gyfer y gweithgareddau gan ein bod yn dymuno rhoi hyblygrwydd i chi fel teuluoedd i gyflawni'r tasgau o fewn amserlen sy'n gweithio i chi.** Rydym yn annog pob disgybl i fod mor actif â phosibl yn feddyliol ac yn gorfforol bob dydd ond yn deall y gallai hyn fod yn anodd mewn realiti.

Cyn diwedd yr wythnos drwy gyfrwng Google Classrooms, sydd ar gael i ddisgyblion oed meithrin hyd at flwyddyn 6, bydd eich plentyn yn derbyn awgrymiadau o ran strwythyr ddyddiol y bydd rhai o'r plant efallai yn dymuno ei ddilyn. Yn ystod yr wythnosau nesaf, bydd pob athro (gan gydweithio'n agos iawn gyda staff eraill o fewn eu hadrannau dysgu) yn parhau i uwchlwytho tasgau/gweithgareddau ar gyfer ei dosbarth. Bydd yr athrawon yn dechrau trwy uwchlwytho gweithgareddau ar gylch pythefnosol, gyda gwybodaeth dosbarth Meithrin, Derbyn, Blwyddyn 1 a 2 yn cael ei anfon ar fore Llun, a gweithgareddau i flynyddoedd 3 i 6 ar fore Mawrth. Byddwn yn monitro y trefniadau yn rheolaidd a gweld sut mae pethau'n mynd. Bydd y tasgau a gynigir yn amrywiol ac yn canolbwyntio ar agweddau o chwe maes sef Lles a Ffitrwydd, Gweithgareddau Ieithyddol, Gweithgareddau Mathemategol, Tasgau Digidol, Tasgau Creadigol a gweithgareddau i hybu Meddylfryd Twf ac ymlacio. Bydd enghreifftiau o rai gweithgareddau ble byddant yn cynnig lefelau gwahanol o her i'r plant.

Gall y disgyblion ddewis gwneud y gwaith ar bapur a'i gadw adref mewn ffolder, neu ei gwblhau yn ddigidol drwy ebostio eu hathrawon neu arbed a rhannu eu gwaith drwy google classrooms. Mae'n dderbyniol hefyd iddynt gwblhau y gwaith ar bapur, tynnu ei lun a'i rannu gyda gweddiill y dosbarth neu efo'r athro. Bydd athrawon yn cydnabod ac yn ymateb i waith y disgyblion gyda sylwadau syml, ac yn amlwg ni fydd yn cael ei farcio yn yr un ffordd ac a fyddai mewn sefyllfa dosbarth arferol.

Cofiwch bod y sefyllfa rydym ynnddi yn un gwbl newydd i ni fel ysgol fel ag y mae i chi fel rhieni, ac rydym yn ceisio addasu y gorau medrwn ni i ddarparu cyfleoedd a thasgau i'ch plentyn. Efallai bydd rhai problemau yn codi, ond gofynnwn i chi fod yn amyneddgar efo ni, ac fe geisiwn ein gorau i'ch cynghori a chynnig cefnogaeth i chi. Ein prif flaenoriaeth fel ysgol yw lles ein disgyblion a'u teuluoedd

yn ystod y cyfnod anodd hwn, felly os ydych chi'n cael unrhyw anawsterau, problemau neu sefyllfaoedd cartref/teulu yn newid, cysylltwch â'r athro dosbarth neu ebostiwrch yr ysgol.

Os oes ganddoch unrhyw gwestiwn o ran y gweithgareddau ac adnoddau, er enghraifft eich bod yn dymuno cael benthg llyfr darllen neu offer arall penodol, yna **dylech gysylltu drwy e.bost gyda'r athro/awes ddsbarth**. Byddwn yn trefnu fod rhain yn cael ei gadael mewn bocs tu allan i neuadd yr ysgol ar amseroedd penodol ar ddiwrnodiau penodol ar gyfer dosbarthiadau penodol. Bydd y trefniadau hyn fel a ganlyn:

1. Bydd rhieni/gofalwyr wedi trefnu ymlaen llaw gyda'r athro/awes ddsbarth os ydynt yn dymuno benthg unrhyw adnoddau ychwanegol(Gall yr adnoddau hyn amrywio o bensil i lyfr darllen)
2. Disgwylir i unrhyw offer a fenthg, gael eu dychwelyd yn yr un cyflwr a phan y casglwyd hwy. Bydd yn rhai codi tal am unrhyw offer sydd ddim yn cael ei dychwelyd neu sydd yn cael ei ddfrodi. (heb law am pensiliau neu feiros) Bydd yr athrawon yn cadw cofnod o unrhyw offer a fenthg.
3. **Dim ond ar yr amseroedd a nodir y bydd yn bosib i chi gasglu unrhyw adnodd** yr ydych wedi gofyn amdano. Rhoddir amser penodol i bob dosbarth, ac ni fydd posib casglu tu allan i'r amseroedd hyn. Ni fydd posib cael mynediad i mewn i'r adeilad.
4. **Bydd yr adnoddau a ofynwyd amdanynt ar gael i'w casglu o focs fydd wedi ei leoli y tu allan i ddrws neuadd yr ysgol. Bydd gwaith eich plentyn wedi ei labelu i chi ei gasglu.**
5. Rhaid i chi sicrhau mai un riant yn unig sydd yn dod i gasglu unrhyw adnoddau, ac eich bod yn cadw at reolau ymbellau cymdeithasol.
6. Unwaith y mae'r adnoddau wedi ei casglu, dylid ymadael a safle'r ysgol yn syth a dychwelyd adref.

Bydd yna focs hefyd yn cael ei adael yn yr un lleoliad wedi ei labelu gyda'r geiriau 'Drop-off'. Byddem yn gwerthfawrogi i unrhyw lyfrau darllen yr ysgol yr ydych wedi ei benthg yn barod ac wedi gorffen gyda nhw, i gael eu dychwelyd i'r bocs yma, fel bod rhain ar gael i eraill.

Dyma fydd yr amseroedd y bydd rhaid cadw atynt.

Dosbarth/Class	Dyddiad / Date	Amser / Time
Miss C. Darlington Bl.3&4 / Yr.3&4	27.4.20	10.45 – 12.00
Mrs M.Williams Bl.5&6 / Yr.5&6	27.4.20	1.15 - 2.30
Miss M.Davies Bl.1&2 / Yr.1&2	28.4.20	10.30-11.15
Miss E. Evans Bl.5&6 / Yr.5&6	28.4.20	12.00-1.15
Mrs S.Jones Bl.1&2 / Yr.1&2	28.4.20	2.00-3.15
Miss A.Morris Nursery / Reception	29.4.20	10.45 – 12.00
Miss Ch.Williams Bl.3&4 / Yr.3&4	29.4.20	1.15-2.30
Miss D.Dempsey Bl.1&2 / Yr.1&2	30.4.20	10.45-12.00
Mr S. Owen Bl.5&6 / Yr.5&6	30.4.20	1.15-2.30
Miss L.Lewis Reception/Derbyn	1.5.20	10.45-12.00
Mr D.Jones Bl.3&4 / Yr.3&4	1.5.20	1.15-2.30

Cofiwch nid yw dysgu o bell am fod yn union fel dysgu yn yr ysgol/ystafell ddsbarth, felly peidiwch â rhoi unrhyw bwysau arnoch eich hunain!

Unwaith eto hoffwn eich hatgoffa i gysylltu os oes gennych unrhyw gwestiwn neu bryder. Cysylltwch gyda'r athro/awes ddsbarth am unrhyw ymholiad ynglyn a'r gwaith, neu gyda'r swyddfa

mailbox@hooson-pri.wrexham.sch.uk am unrhyw ymholiad cyffredinol. Diolch yn fawr, Cofion gorau atoch a chadwch yn ddiogel.

Rhodri Jones

Pennaeth/Headteacher

Ysgol I D Hooson

